Rhif: **WG21099**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Diogelu plant: newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth plant sy'n perfformio

Dyddiad cyhoeddi: **Mawrth 2014**

# Diogelu plant: newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth plant sy’n perfformio

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Cynhyrchwyr proffesiynol/amatur, cwmnïau ffilm a darlledu, asiantaethau modelu, cymdeithasau chwaraeon, awdurdodau lleol, ysgolion perfformio, rhieni/gofalwyr a phlant, hebryngwyr a phartïon eraill a diddordeb. |
| **Trosolwg** | Dechreuodd ymgynghoriad ar-lein gyda’r Adran Addysg ar gynigion i ddiwygio deddfwriaeth plant oedran ysgol orfodol sy’n perfformio mewn amrywiaeth o weithgareddau perfformio ar 24 Mai 2012 a daeth i ben ar 3 Awst 2012. Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion a dderbyniwyd gan rhanddeiliaid yng Nghymru. |
| **Camau i’w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Cangen Dysgwyr Amrywiol a Diogelu<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 5807<br>e-bost: SafeguardingChildreninEducation@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae’r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |

ISBN digidol 978 1 4734 0893 7
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21099

## Cynnwys

**Cyflwyniad** **1**

**Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad** **3**

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y 31 ymateb a ddaeth i law Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r Adran Addysg yn Lloegr ar gynigion i ddiwygio'r drefn o reoleiddio plant o oedran ysgol gorfodol a gweithgareddau perfformio. Mae'r ystadegau ar ymatebwyr yng Nghymru wedi'u cynnwys yn adroddiad yr Adran Addysg ond er mwyn cynrychioli barn ymatebwyr o Gymru'n glir, rydym wedi dadgyfuno'u data a rhai o'u hymatebion. Yn ôl yr adroddiad Cymru a Lloegr ar y cyd, dim ond 27 ymateb a gafwyd o Gymru. Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw bod rhai o'r ymatebwyr i Lywodraeth Cymru wedi dweud eu bod yn ymateb o'r "DU" neu "Cymru a Lloegr". Gan fod yr ymatebwyr hyn wedi dewis cyflwyno'u hymateb i Lywodraeth Cymru, rydym wedi cynnwys eu hymatebion fel rhai sy'n cynrychioli safbwynt Cymru.

Mae'r ddogfen gryno hon yn canolbwyntio ar ymatebion penodol Cymru i'r ymgynghoriad. Mae fersiwn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr wedi'i pharatoi gan yr Adran Addysg ac mae ar gael yn http://www.education.gov.uk/childrenandyoungpeople/safeguardingchildren/a0068886/safeguarding-child-performers

Mae'r adroddiad ar wefan yr Adran Addysg yn seiliedig ar 232 o ymatebion i'r ddogfen ymgynghori, 32 ymateb i holiadur plant, rhai ohonynt yn ymatebion grŵp, pum gweithdy penodol i'r sector, trafodaeth ford gron cyn yr ymgynghoriad a dau gyfarfod ymgynghori a oedd yn agored i'r cyhoedd.

| Dewisiadau | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Lloegr: | 186 | 80% |
| Cymru: | 27 | 12% |
| Arall*: | 19 | 8% |
| **Cyfanswm:** | **232** | **100%** |

***** Roedd ymatebion a nododd 'arall' naill ai'n ymateb o'r DU neu o Gymru a Lloegr.

### Cyfansoddiad Ymatebwyr o Gymru

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r categori a oedd yn eu disgrifio nhw orau fel ymatebydd.

| Categori | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Awdurdod Lleol: | 6 |
| Cwmni Ffilmio/Darlledu/Cynhyrchu: | 5 |
| Plant sy'n Perfformio: | 3 |

| | |
|---|---|
| Hebryngwr: | 2 |
| Rhiant/Gofalwr: | 4 |
| Cymdeithas Chwaraeon: | 1 |
| Ysgol Berfformio: | 3 |
| Arall | 11 |
| **Cyfanswm:** | **31** |

Roedd ymatebwyr a ddisgrifiodd eu hunain fel “Arall” yn perthyn i sefydliadau cenedlaethol, sefydliadau gwirfoddol neu elusennol neu gyrff proffesiynol.

Roedd trawstoriad da o randdeiliaid sy’n ymwneud â pherfformio, yn amatur a phroffesiynol, ledled Cymru. Roedd y diwydiant ffasiwn a hysbysebu a phlant sy’n modelu yn amlwg o absennol – ni chafwyd unrhyw ymatebion ganddynt ac nid oeddent yn bresennol yn yr un o’r ddau weithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid.

# Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cwmpas gofynion trwyddedu

### C1 Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y gweithgareddau ym mharagraff 5.2 ar y rhestr o'r rhai sydd angen trwydded?

Cafwyd 25 ymateb i'r cwestiwn hwn lle'r oedd cyfle i ymatebwyr nodi eu dewis. Roedd 77% yn cytuno â'r gweithgareddau a restrwyd fel rhai y byddai angen trwydded arnynt. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn siŵr. Isod mae detholiad o sylwadau a gafwyd gan y rheini a nododd ddewis a'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn yn unig.

**Sylwadau**

- Dylai system drwyddedau fod yn berthnasol i blant cyn-ysgol hefyd yn ogystal â phlant o oedran ysgol gorfodol.

- Mae'n bwysig bod gofynion trwyddedu yn cwmpasu'r sefyllfaoedd hynny lle mae rhaglen ddogfen nad yw'n cynnwys sefyllfa artiffisial ac nad yw'n cynnwys risgiau ar y pryd (e.e. ffilmio 'pry ar y wal') yn rhoi plentyn mewn mwy o risg (e.e. o gael ei fwlio gan ei gyfoedion) ar ôl darlledu'r deunydd.

- Mewn perthynas â'r rhyngrwyd, mae pryderon am sut bydd hyn yn cael ei blismona. Sut gellir gorfodi'r anhysbys? Rydym yn poeni o hyd am y defnydd o ddelweddau o blant yn y cyfrwng hwn, ond rhaid i orfodi fod yn effeithiol er mwyn llwyddo.

- Mae angen diffiniad mwy eglur o 'Cynulleidfa sy'n Talu'.

- Mae diffyg diffiniad o 'berfformiad' wedi arwain at ddryswch wrth ddehongli'r rheoliadau.

### C2 Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys gweithgareddau eraill ar y rhestr o'r rhai sydd angen trwydded?

Roedd 42% o'r ymatebwyr a nododd ddewis wrth ymateb i'r cwestiwn hwn o'r farn nad oedd unrhyw weithgareddau eraill y dylid eu cynnwys ar y rhestr. O'r 6 ymatebydd (19%) a oedd o'r farn y dylid ychwanegu gweithgareddau eraill at y rhestr, soniodd mwy nag un ohonynt am basiantau harddwch a ffilmiau myfyrwyr, h.y. y rhai a gynhyrchir gan israddedigion fel rhan o'u cwrs gradd yn y brifysgol.

**Sylwadau**

- Sioeau amatur lle mae cast cymysg, ac os nad oes angen trwydded arnynt, dylid bod angen cod ymarfer.

- Cytuno â'r egwyddor o leihau biwrocratiaeth er mwyn rhoi rhagor o gyfleoedd i blant berfformio, ond yn poeni rhywfaint bod cwmnïau amatur wedi'u heithrio'n llwyr o ofynion trwyddedu lle nad yw'r plentyn yn cael ei dalu.

**C3 Ydych chi'n cytuno y dylid eithrio'r gweithgareddau hyn rhag gofynion trwyddedu. Os felly, rhowch eich rhesymau.**

Nid oedd bron dwy ran o dair (61%) o ymatebwyr o'r farn y dylid eithrio unrhyw un o'r gweithgareddau hyn o ofynion trwyddedu, gyda dim ond dau ymatebydd yn rhoi enghreifftiau o weithgareddau y dylid eu heithrio. Yn eu plith roedd sefydliad cenedlaethol a ddywedodd y dylai'r sefydliad gael ei eithrio oherwydd yr arferion diogelu trylwyr sydd eisoes ar waith yn y sefydliad yn sgil natur y sefydliad.

**Sylwadau**

- Fodd bynnag, mae angen ystyried yn ofalus diffiniad "rhaglenni dogfen arsylwadol neu ffeithiol sydd mewn gwirionedd yn cael eu ffugio er mwyn creu effaith ddramatig neu olygyddol"

- Dylai perfformiadau amatur a Pherfformiadau Ieuenctid ac Elusennol gael eu heithrio, gan roi mwy o amser i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar geisiadau am drwyddedau teledu, theatr a ffilm proffesiynol

- Dylid ymestyn y rhestr o weithgareddau sydd wedi'u heithrio i gynnwys:

  - Pob cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr
  - Rhaglenni er budd y cyhoedd – Byddai hyn yn cynnwys rhaglenni ymchwilio lle byddai bwrw ymlaen heb drwydded o fudd i'r cyhoedd dan rai amgylchiadau, er enghraifft, i ddatgelu camymddwyn gan awdurdod lleol. Byddai angen i eithriad o'r fath fod yn destun mesurau diogelu caeth.

- Er mwyn eglurder, dylai'r gweithgareddau canlynol gael eu heithrio:-

  - Bwletinau newyddion dyddiol
  - Cyfweliadau sengl a *vox pops*
  - Cyfranogwyr mewn clyweliad nad oedd gwybodaeth amdanynt o flaen llaw, a chymryd rhan mewn cynulleidfa
  - Digwyddiadau ysgolion
  - Rhaglenni arsylwadol

## Eithriadau

**C4 Ydych chi'n credu y dylen ni gadw'r rheol pedwar diwrnod, gostwng nifer y diwrnodau yn y rheol, neu ddiddymu'r rheol?[1]**

**C5 Os ydych chi'n credu y dylid gostwng diwrnodau'r rheol yn hytrach na'i ddiddymu, dywedwch faint o ddiwrnodau y dylid eu caniatáu cyn ei bod yn ofynnol cael trwydded.**

Mewn ymateb i gwestiwn 4, roedd 10 ymatebydd (32%) o blaid cadw'r rheol 4 diwrnod, a 9 (29%) o blaid diddymu'r rheol. Dim ond dau ymatebydd a awgrymodd y dylid lleihau nifer y diwrnodau; nid oedd cydsyniad clir am y cynnig hwn. O'r ymatebwyr hynny a oedd o'r farn y dylid lleihau yn hytrach na diddymu'r rheol, dim ond ambell un a roddodd sylwadau, yn cynnwys awgrymu rheol un neu ddau ddiwrnod neu y dylai fod angen trwydded doed a ddel.

**Sylwadau**

- Diddymu'r rheol a chael trwydded ar gyfer pob plentyn mewn cynhyrchiad proffesiynol. Cael corff o bobl ar gyfer plant mewn cynyrchiadau amatur lle bydd y niferoedd yn uwch yn ôl pob tebyg.

- Dylid diddymu'r rheol. Bydd yr awdurdod lleol yn gallu monitro nifer perfformiadau'r plentyn.

- Hwyrach fod y rheol hon yn dibynnu ar y math o weithgaredd dan sylw a sut mae'n effeithio ar iechyd ac addysg y plentyn.

- Credwn y byddai pennu risg fel y prif sail a'r rheswm am yr angen am drwydded, os oes canllawiau ar gynnal asesiadau risg i gyd-fynd â hyn, yn ffordd fwy sensitif o lawer o amddiffyn plant.

- Mae'r rheol 4 diwrnod o fantais i bobl ifanc sy'n chwilio am brofiad gwaith ac yn gymorth iddynt gael tystiolaeth o'u cofnod cyrhaeddiad – mae'n anodd dros ben i bobl ifanc gael lleoliadau gwaith yn y diwydiant.

- Dylid lleihau'r rheol. Mae plant yr un mor agored i niwed yn ystod ymarferion ac un perfformiad ag y maent yn ystod pedwar perfformiad neu ragor.

[1] Rheol 4 Diwrnod: Gall plentyn berfformio am 4 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 6 mis heb drwydded – os nad yw'n colli'r ysgol ac os nad yw'n cael ei dalu; y cyfan sydd angen i'r cwmni cynhyrchu ei wneud yw cael awdurdodiad (llythyr neu e-bost) yn hytrach na thrwydded gan yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw

- Mae'r rheol pedwar diwrnod yn rhy gymhleth a dryslyd i rieni unigol, sefydliadau ac awdurdodau lleol ei monitro ac asesu. Mae pobl yn torri'r rheol o ganlyniad i'r dryswch hwn.

- Mae'r rheol pedwar diwrnod yn gorfodi cwmnïau cynhyrchu i ddefnyddio amrywiaeth eang o blant o lawer o ysgolion a chefndiroedd, gan annog cyfle amrywiol i bawb.

**C6 Ydych chi'n credu y dylai cyrff llywodraethu chwaraeon, awdurdodau lleol, neu rywun arall fod yn gyfrifol am ddiogelu ym maes chwaraeon? Rhowch eich rhesymau.**

Roedd y mwyafrif (32%) o ymatebwyr a nododd ddewis wedi ticio Cyrff Llywodraethu Chwaraeon ac roedd 16% wedi dewis awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oedd 48% o ymatebwyr yn siŵr pwy ddylai fod yn gyfrifol neu nid oeddent wedi nodi dewis.

**Sylwadau**

- Gall yr hyfforddiant sydd ei angen yn ystod yr wythnos ysgol lesteirio addysg y plentyn. Bydd hyn yn effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgol.

- Mae angen monitro diogelu mewn chwaraeon gan fod rhai plant yn cymryd rhan mewn cystadlaethau yn ystod yr wythnos ysgol ac, mewn rhai achosion, mewn gwledydd eraill.

- Ni ddylai'r cyfrifoldeb am ddiogelu gael ei gyfyngu i un categori o gyrff, ond dylai gael ei arfer gan awdurdodau lleol, cyrff chwaraeon a phob sefydliad ac unigolyn sy'n ymwneud â rheoli cyfranogiad plant mewn gweithgareddau chwaraeon.

- Rydym o'r farn y dylid cael cysylltiadau cryf rhwng cyrff llywodraethu chwaraeon ac awdurdodau lleol gan y bydd angen trwyddedau awdurdod lleol o hyd ar gyfer plant dan 13 oed sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon am dâl. Hefyd, er y datganiad bod plant dros 13 oed sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon am dâl â'u bryd ar yrfa mewn chwaraeon, hoffem gydnabyddiaeth i'r ffaith nad yw hyn bob amser yn digwydd ac, felly, rhaid ystyried eu hanghenion addysgol.

- Diogelwch y plentyn sy'n dod gyntaf a gorau oll po agosaf i'r plentyn mae'r awdurdod lleol. Mae pryderon yn fwy tebygol o gael eu codi ar y cyd â Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Mae cyrff llywodraethu chwaraeon proffesiynol mewn gwell sefyllfa i asesu a monitro diogelu yn eu campau penodol yn hytrach nag awdurdodau lleol.

**C7 Sut ydych chi’n credu y gall awdurdodau lleol sicrhau dull cyson ledled y wlad o benderfynu pa weithgareddau sydd angen trwydded, a pha weithgareddau y dylid eu heithrio?**

Y brif thema yn sylwadau’r ymatebwyr ar y cwestiwn hwn oedd yr angen am ganllawiau clir a chadarn gan Lywodraeth Cymru sy’n nodi cyfrifoldebau, prosesau a threfniadau monitro. Roedd ymatebwyr o’r farn bod gormod o anghysondeb rhwng awdurdodau a chanllawiau canolog, a byddai sicrhau ffurflenni a threfniadau gweinyddu safonol, ynghyd â chanllawiau clir, o gymorth i sicrhau dull cyson.

**C8 A oes unrhyw weithgareddau neu amgylchiadau eraill y dylid eu heithrio rhag trwyddedu?**

Roedd 32% o ymatebwyr o’r farn nad oedd unrhyw weithgareddau neu amgylchiadau eraill a fyddai angen eithriad, gyda dim ond 19% yn awgrymu gweithgareddau i’w heithrio fel gwrthdaro buddiannau, cynyrchiadau amatur dan ofal sefydliadau cenedlaethol a chynnwys a gynhyrchir gan y plant eu hunain. Unwaith eto, nid oedd cytundeb clir rhwng ymatebwyr, gyda llawer wedi dewis ‘ddim yn siŵr’ neu heb ddewis unrhyw ateb i’w cwestiwn hwn. Mae sylwadau’r 6 ymatebydd (19%) a gynigiodd gweithgareddau eraill i’w heithrio isod.

**Sylwadau**

- Byddem yn croesawu trafodaethau pellach ynglŷn ag eithrio’r angen am drwydded lle mae gwrthdaro buddiannau gyda’r weithdrefn drwyddedu e.e. os yw gwrthod rhoi trwydded yn atal arsylwi didwyll sydd er budd i’r cyhoedd, ffilmio cudd neu ymchwiliadau i’r awdurdodau eu hunain.

- Gyda mwy a mwy o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ar gael gan unigolion, sy’n addas i’w ddarlledu, mae’n amlwg nad yw’r cwmni cynhyrchu wedi cymryd rhan yng nghynhyrchu’r recordiad, na’i drefnu, er bod rhesymau da dros ddarlledu cynnwys o’r fath.

- Anogir plant sydd â’r cyfle a’r gallu i berfformio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau i wneud hynny, gan wybod bod yr awdurdod lleol yn gofalu am eu lles.

- Mae’n anochel y bydd mathau newydd o berfformio yn dod i’r fei nad ydynt wedi’u diffinio’n glir yma, gyda photensial o niwed i’r plant sy’n cymryd rhan ynddynt.

- Credwn fod rôl ganolog asesu risg yn y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig yn beth cadarnhaol ac, o’i drafftio’n gywir, bydd yn gwneud llawer i gwmpasu niwed posibl mewn mathau newydd o berfformio.

## Newidiadau i drwyddedu

### C9 A yw'r oriau sydd wedi'u cynnig ym mharagraff 7.16 yn ymddangos yn rhesymol? Os oes gennych chi bryderon, beth ddylid ei newid?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (61%) o blaid y newidiadau arfaethedig i'r oriau, a dim ond 6% oedd yn eu herbyn. Er hynny, roedd yr awgrymiadau ar yr hyn fyddai'n briodol yn amrywio.

**Sylwadau**

- Mae gen i brofiad o weithio ar raglen deledu lle na allai grŵp o bobl ifanc dan 16 oed fod yn yr adeilad nac ymddangos mewn rhan arall o'r rhaglen ar ôl 10.00pm. Roedd y bobl ifanc dan 16 oed yn deall yn iawn y rheswm pam na allent gymryd rhan am fod eu trwydded yn gorffen am 10.00pm. Bydd yr amser newydd o 11.00pm yn rhoi'r hyblygrwydd i aelodau iau gael eu cyfweld ar ôl perfformiad ac ymuno â'r dathlu.

- Mae'r oriau yn ymddangos yn rhesymol, ond byddai'n beth da cael canllawiau ar beth yw seibiant rhesymol, e.e. dim llai na chwarter awr.

- Mae cwmnïau cynhyrchu yn disgwyl i blant fod yn y lleoliad mor gynnar â phosibl er mwyn gallu gofalu am y gwisgoedd/colur cyn dechrau ffilmio. O ddechrau am 7am, byddai'n rhaid i blant godi a theithio yn oriau mân y bore.

- Dylai rheolau ynglŷn ag oriau fod yn berthnasol i bob ymarfer, nid dim ond y rhai ar ôl y perfformiad cyntaf.

- Mae ymarferion yr un mor flinedig â pherfformiadau, a gallant achosi fwy o straen.

### C10 Ydych chi'n credu y dylai trwyddedau barhau i nodi dyddiadau perfformio, neu ydych chi'n credu bod rhywfaint o hyblygrwydd o ran dyddiadau yn briodol?

Roedd bron hanner (48%) yr ymatebwyr o'r farn bod cael hyblygrwydd o ran dyddiadau yn briodol, gyda chwarter yn nodi dyddiadau penodol. Cafwyd nifer o sylwadau ar ddyddiadau penodol a hyblyg gan ymatebwyr.

**Sylwadau**

<u>Nodi</u>

- Fel hyn, bydd yr awdurdod lleol yn gwybod ble a phryd mae'r perfformiadau. Hefyd, gellir cadw cofnodion o bob perfformiad, gan sicrhau bod plant yn cael eu diogelu bob amser.

- Dylai trwyddedau bennu cyfnod cynhyrchu. Fodd bynnag, byddai'n ddoeth cael elfen o hyblygrwydd, er enghraifft, rhag ofn bod y tywydd yn wael neu fod aelod o'r prif gast yn sâl. Ni ddylai newid y dyddiadau y cytunwyd i'w gweithio fod yn rhywbeth cyffredin.

- Dylid parhau i nodi dyddiadau er mwyn sicrhau nad yw anghenion addysg plentyn yn dioddef oherwydd methiant cynhyrchydd i gynllunio'i amserlen ffilmio/ymarfer yn ddigon da.

- Mae ysgolion eisiau gwybod yn union pryd fydd plentyn yn absennol, fel nad ydynt yn treulio oriau yn holi am ei hynt.

<u>Hyblygrwydd</u>

- Mae angen hyblygrwydd oherwydd bod yr amserlen gynhyrchu yn newid o hyd

- Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, fel salwch ymhlith y cast neu amodau'r tywydd, rydym o blaid cael hyblygrwydd o ran dyddiadau perfformio.

- Yn bendant, er mwyn hwyluso archwiliadau a gofynion presenoldeb ysgolion.

- Dylai hyblygrwydd gynnwys dyletswydd i hysbysu'r awdurdod lleol am y dyddiadau terfynol (at ddibenion archwilio)

- Er ddim yn gwbl benagored, h.y. nodi amserlen

- Yn aml, mae'n rhaid i gwmnïau cynhyrchu newid dyddiadau'n annisgwyl ar y funud olaf.

**C11 A ddylai fod yn ofynnol i'r cynhyrchydd gynnal asesiad o risg fel rhan o'r cais? Os felly, pa ffactorau ddylid eu hystyried?**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (71%) yn cytuno y dylai fod gofyn i'r cynhyrchydd gynnal asesiad risg, a dim ond un oedd yn anghytuno. Nododd yr ymatebwyr nifer o ffactorau eraill y dylid eu hystyried ac maent wedi'u rhestru yn y sylwadau isod.

**Sylwadau**

- Bydd hyn yn galluogi'r cwmni cynhyrchu i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y plentyn sy'n perfformio, gan sicrhau ei les bob amser. Hebryngwyr i gael copi o'r asesiad risg i sicrhau bod y plentyn yn cael ei ddiogelu bob amser.

- Dylid cynnal asesiad risg fel mater o drefn ar gyfer yr oedolion a'r plant ar set cynhyrchu/mewn theatr.

- Dylid cwblhau a chyflwyno asesiad risg ar gais.

- Mae gan yr awdurdod lleol yr hawl i ofyn am asesiad risg ‘yn y fan a’r lle’.

- Cynhelir asesiadau risg bob dydd ar y rhan fwyaf o gynyrchiadau a gellid anfon un cyffredinol gyda’r cais.

- Dyma ffactorau eraill i’w hystyried a nodwyd gan ymatebwyr (nid yw’r rhestr yn cynnwys pob un o’r ffactorau):

    - Materion Iechyd a Diogelwch
    - Anghenion emosiynol a chorfforol y plentyn
    - Effaith ar y plentyn ar ôl darlledu
    - Trefniadau teithio
    - Gofynion llety
    - Gofynion deietegol
    - Rôl a chyfranogiad yr hebryngwr
    - Natur y cynhyrchiad
    - Unrhyw anghenion neu ofynion arbennig sydd gan y plentyn
    - Peryglon yn y perfformiad ei hun e.e. golygfeydd ymladd, defnyddio arfau, effeithiau strôb, ‘hedfan’
    - Gofynion gwahanol plant yn ôl eu hoedran
    - Peryglon cefn llwyfan
    - Natur y ffilmio a’r rhaglen
    - Amser y dydd / amserlen a hyd y perfformiad/ymarfer

## Cynyddu cyfleoedd i blant

**C12 Ydych chi’n credu y dylai awdurdodau lleol allu rhoi cymeradwyaeth ‘Corff o Bobl’ neu gymeradwyaeth unigol ar gyfer digwyddiadau mawr lle caiff plant 13 oed a hŷn eu talu i gymryd rhan?**

Ni wnaeth unrhyw ymatebydd anghytuno â’r cwestiwn hwn ac roedd 71% yn cytuno y dylai awdurdodau lleol allu rhoi cymeradwyaeth ‘Corff o Bobl’ neu gymeradwyaeth unigol ar gyfer digwyddiadau mawr lle caiff plant 13 oed a hŷn eu talu i gymryd rhan.

### Sylwadau

- Bydd hyn yn ei gwneud hi’n haws i’r grŵp sy’n perfformio a’r awdurdod lleol, gan leihau nifer y ceisiadau.

- Rydym yn cydnabod bod hyn yn newid go iawn ym meddylfryd y llywodraeth, ac mae’n gwbl groes i’r ddeddfwriaeth gyfredol, lle mae’r defnydd o Gorff o Bobl wedi’i fwriadu’n bennaf ar gyfer grwpiau amatur.

- Yn dibynnu ar y gweithgaredd a chaniatâd rhieni.

- Dylai awdurdod lleol allu defnyddio cymeradwyaeth corff o bobl ar gyfer plant o unrhyw oedran.

- Rydym yn cytuno'n gryf y dylai awdurdodau lleol allu roi cymeradwyaeth unigol ar gyfer digwyddiadau mawr lle caiff plant 13 oed a hŷn eu talu i gymryd rhan.

- Dylai awdurdodau lleol allu rhoi cymeradwyaeth unigol ar gyfer digwyddiadau mawr lle caiff plant eu talu i gymryd rhan. Dylai hyn gynnwys amgylchiadau lle mae cynhyrchwyr y cynnwys yn talu'r sefydliad dan sylw neu'n talu'r plant sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol.

- Dylid sicrhau eglurder mewn sefyllfaoedd lle bydd plant yn perfformio mewn grŵp a bod tâl yn cael ei wneud i'r sefydliad a gynrychiolir ganddynt – côr amatur, grŵp dawnsio ac ati.

**C13 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gofrestru sefydliadau amatur yn hytrach na thrwyddedu plant unigol?**

Cafwyd cefnogaeth i'r cynnig hwn ar y cyfan gyda dros hanner (58%) yn cytuno a dim ond un ymatebydd yn anghytuno.

**Sylwadau**

- Rhaid i'r sefydliad amatur fod wedi'i gofrestru a chael trwyddedau perfformio ar gyfer pob plentyn dan 16 oed. Gall yr awdurdod lleol archwilio lleoliad y perfformiad a monitro pob perfformiad ar gyfer y plentyn. Gall rhieni fod yn gyfrifol am ddiogelu mewn sefydliadau amatur, heb yn wybod i'r awdurdod lleol.

- Rydym yn croesawu hyn oherwydd nid yw'r drwydded yn amddiffyn y plentyn o reidrwydd. Yn hytrach, mae angen proses drylwyr i sicrhau bod gan y sefydliad amatur hygrededd, bod ganddo brosesau clir ar waith i amddiffyn plant, a chred mai'r plentyn sy'n dod gyntaf.

- Credaf y byddai hyn yn wych ond dylai grwpiau amatur/cymunedol barhau i gysylltu â'u hawdurdod lleol.

- Dylai pob oedolyn sy'n aelod o gast amatur sy'n cynnwys plant a phobl ifanc gael gwiriad y SCT (gan y byddent yn cyfrif fel gwirfoddolwyr, ni fyddai angen talu am y gwiriadau). Yna gallai'r awdurdod lleol drwyddedu'r sefydliad a rhoi gweithdrefnau iddo sy'n cyd-fynd â rheoliadau'r drwydded mewn perthynas ag oriau gwaith/mynd i ymarferion ac ati.

- Yn gwbl briodol, ac yn agor y rhan fwyaf o gyfleoedd i gymryd rhan

**C14 Ydych chi’n cytuno â’r cynnig i gael gwared ar gyfyngiadau i drwyddedu plant dan 14 oed?**

Roedd ymatebwyr yn cytuno â’r cynnig hwn (68%) gyda neb yn anghytuno, a dim ond 10% o ymatebwyr oedd ddim yn siŵr.

**Sylwadau**

- Bydd hyn yn rhoi rhagor o gyfleoedd i blant dan 14 oed. Bydd asesiadau risg a thrwydded berfformio i’r perfformiwr yn diogelu’r plentyn.

- Mae caniatâd rhieni yn hanfodol a dylai cynyrchiadau proffesiynol ddefnyddio trwyddedau, rhaid i grwpiau cymunedol lleol amatur gael eu cofrestru a rhestru’r holl blant hyd at oedran gadael yr ysgol sy’n cymryd rhan.

- Mae’r cyfyngiadau cyfredol yn creu problemau ac wedi dyddio.

- Bydd cael gwared ar gyfyngiadau i drwyddedu plant dan 14 oed yn annog cyfranogiad gan y grŵp oedran hwnnw ac yn hybu cydraddoldeb.

**C15 Ydych chi’n cytuno â’r cynigion i gael gwared ar gyfyngiadau ar waith mewn criw?**

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (52%) yn cytuno â’r cynigion i gael gwared ar gyfyngiadau ar waith mewn criw, a dim ond un ymatebydd oedd yn anghytuno. Yn ôl yr ymatebydd a oedd yn anghytuno, ‘bydd dal angen i’r awdurdod lleol wybod ym mha berfformiadau mae’r plentyn yn cymryd rhan. Mae dal angen i’r awdurdod lleol arfer ei grebwyll o ran penderfynu ar yr amodau trwydded sydd eu hangen er lles gorau’r plentyn’.

**C16 Nodwch a ydych chi’n credu y byddai’r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y grwpiau canlynol o blant:**

**a) bechgyn**
**b) merched**
**c) plant neu bobl ifanc ag anabledd corfforol neu ddysgu**
**d) plant a phobl ifanc o wahanol gymunedau economaidd, cymdeithasol, ethnig neu grefyddol.**

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr i bedair rhan y cwestiwn yn cytuno y byddai’r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp. Dim ond un ymatebydd ar gyfer pob rhan o’r cwestiwn hwn a oedd o’r farn y byddent yn cael effaith negyddol, dau ar gyfer gwahanol gymunedau economaidd, cymdeithasol, ethnig neu grefyddol.

Dylid nodi hefyd, ym mhob un o’r pedwar grŵp, bod nifer yr ymatebwyr nad oeddent yn siŵr a fyddai’n cael effaith gadarnhaol neu negyddol i gyfrif am 29% neu fwy o’r

dewisiadau a nodwyd. Rhoddir sylwadau mwy penodol ar gyfer bechgyn, merched, anabledd corfforol neu ddysgu, a gwahanol gymunedau economaidd, cymdeithasol, ethnig neu grefyddol isod.

**Sylwadau Cyffredinol**

- Credwn fod y cynigion yn rhoi cyfle i blant o bob rhyw, gallu neu gefndir cymdeithasol, economaidd, ethnig neu grefyddol gymryd rhan mewn rhaglenni teledu.

- Ni chredwn y bydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar y grwpiau dan sylw. Mae'r system gyfredol o reoleiddio plant sy'n perfformio yn aml yn ddibynnol ar rieni a gwarcheidwaid o grwpiau economaidd-gymdeithasol mwy cefnog sydd â'r amser a'r adnoddau i weithio'u ffordd drwy anghysonderau'r broses drwyddedu. Gallai newidiadau fel y rhai a amlinellir yn y cynigion drafft, sydd â'r nod o greu system fwy tryloyw a theg, gael effaith gadarnhaol ar gyfansoddiad economaidd-gymdeithasol y gweithlu o blant sy'n perfformio'n broffesiynol.

**Bechgyn**

- Nid ydym yn credu y byddai'r cynigion yn gyffredinol yn cael effaith gadarnhaol ar fechgyn/merched ac yn rhoi rhagor o gyfleoedd iddynt o bosibl. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn annog dull gweithredu anghyson a'r posibilrwydd y gallai'r 'loteri cod post' waethygu.

- Mae bechgyn yn llai tebygol o lawer o gymryd rhan mewn gweithgareddau perfformio – gorau po fwyaf o rwystrau y gellir cael gwared arnynt.

**Merched**

- Digon o ferched yn cymryd rhan, ac mae'r eithriad pedwar diwrnod yn golygu nad oes angen trwydded ar y rhan fwyaf ohonynt

**Corfforol/dysgu**

- Mae amryw o sefyllfaoedd lle mae plant ag anableddau yn cael croeso gan bob grŵp, ac mae ein profiad ni'n dangos bod y plant hyn (ac oedolion hefyd, yn hyn o beth) yn teimlo eu bod yn rhan o'r grŵp, ac mae eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu heb iddynt deimlo eu bod yn wahanol i gyfranogwyr eraill abl. Ar y cyfan, nid ydym o'r farn y bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar eu profiadau tebygol yn y byd adloniant, boed yn broffesiynol neu'n amatur, yn y tymor byr.

- Mae'r rheol pedwar diwrnod yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r rhain? Dim ond un perfformiad cyflawn y flwyddyn bydd ein grŵp ni'n ei wneud. Perfformiadau 'rhannu' i rieni a ffrindiau yw'r gweddill.

**Economaidd/cymdeithasol**

- Mae amryw o sefyllfaoedd lle mae plant o wahanol gymunedau economaidd, cymdeithasol, ethnig neu grefyddol yn cael croeso gan bob grŵp, ac mae ein profiad ni’n dangos bod y plant hyn (ac oedolion hefyd, yn hyn o beth) yn teimlo eu bod yn rhan o’r grŵp. Yn wir, mae eu hamrywiaeth yn aml yn golygu bod anghenion grwpiau lleiafrifol a’r hyn sydd ganddynt i’w gynnig i sefydliad yn cael eu derbyn yn well na’r disgwyl ac, yn ein profiad ni, mae pob un ohonynt yn cael ei ystyried yn rhan o’r grŵp. Ar y cyfan, nid ydym o’r farn y bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar eu profiadau tebygol yn y byd adloniant, boed yn broffesiynol neu’n amatur, yn y tymor byr.

- Ddim yn credu mai trwyddedu yw’r rhwystr mwyaf arwyddocaol yma

**C17 A oes unrhyw beth y dylem ei wneud i wella cyfle cyfartal ar gyfer plant sy’n perfformio?**

Cafwyd sylwadau tebyg i’r rhai a gafwyd ar gyfer cwestiwn 7, sef y dylai pob awdurdod gael dull gweithredu cyson sydd wedi’i gynnwys mewn canllawiau a gweithdrefnau gan y Llywodraeth. Byddai hyn yn galluogi ac yn creu cyfle cyfartal ar gyfer plant sy’n perfformio. Cafwyd sylwadau hefyd ar ddiddymu’r gofyniad am archwiliad meddygol/tystysgrif meddyg teulu a chaniatáu i rieni hunan-ardystio. Byddai hyn yn rhoi cyfle cyfartal i blant o deuluoedd incwm isel.

## Hebryngwyr

**C 18 Ydych chi’n cytuno y dylai fod yn ofynnol cael hebryngwr ar gyfer plant sy’n cymryd rhan mewn unrhyw leoliad perfformio? Os ydych chi’n anghytuno, eglurwch pam.**

Ar y cwestiwn hwn roedd y ganran uchaf o ymatebwyr yn cytuno, gyda 74% yn cytuno y dylai fod yn ofynnol cael hebryngwr ar gyfer plant sy’n cymryd rhan mewn unrhyw leoliad perfformio. Nid oedd unrhyw ymatebydd yn ansicr am y cwestiwn hwn ond roedd un ymatebydd yn anghytuno.

**Sylwadau**

- Mae’r hebryngwr yn hollbwysig i sicrhau iechyd, diogelwch a lles moesol y plentyn a sicrhau ei fod yn cael ei drin yn garedig. Nid yw’n berthnasol a yw’r hebryngwr yn gwneud hyn yn y sector proffesiynol neu yn y sector amatur.

- Yn y sector amatur, dylid caniatáu oedolion cyfrifol sydd wedi cael eu gwirio gan y grŵp a chredaf y byddai rhieni yn disgwyl bod pob un ohonynt wedi cael gwiriad y SCT.

- Mae'n hanfodol bwysig bod yr hebryngwr yn bresennol gyda'r plant i sicrhau nad yw'r plant yn gweithio mwy na'r oriau a ganiateir a'u bod yn cael seibiant. Mae pawb arall yn brysur gyda'u gwaith eu hunain, a byddai'n hawdd iddynt anghofio am anghenion y plentyn.

- Weithiau mae plant dan 7 oed yn teimlo'n fwy diogel os yw eu rhieni ar y set ac mae rhai rhieni yn amharod i adael eu plant ifanc gyda dieithryn, hyd yn oed os yw hwnnw'n hebryngwr trwyddedig.

- Gellid cael hebryngwyr ar 2 lefel wahanol, gyda thâl a di-dâl. Serch hynny, dylai fod yn ofynnol i bob hebryngwr gael gwiriad y SCT a hyfforddiant digonol.

- Byddai defnydd gwell o hebryngwyr yn arbennig o dderbyniol yn y diwydiant ffasiwn.

### C19 Ydych chi'n credu bod y cynnig bod y sector amatur yn darparu eu hebryngwyr eu hunain yn darparu diogelwch digonol ar gyfer plant?

Nid oedd 32% o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r sector amatur gymeradwyo eu hebryngwyr eu hunain, a'r prif bryder oedd yr anallu i sicrhau bod gwiriadau'r SCT addas wedi'u cwblhau neu ar y gweill. Roedd y rhai a oedd yn cytuno (19%) o'r farn bod rhieni'n bresennol yn amlach na pheidio yn y sector amatur.

**Sylwadau**

- Nac ydyw, heb os! Sut gallwn ni fod yn siŵr y byddai gwiriadau'r SCT ac ati yn cael eu cwblhau? Mae hebryngwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant a'u dyletswyddau, ynghyd â gwiriad manwl yr SCT. Os na chaiff y gwiriadau hyn eu cwblhau, mae'n cynyddu perygl oedolion i blant.

- Ar yr amod bod gan y bobl hyn wiriadau cyfredol clir y SCT a'u bod wedi cael esboniad o'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud.

- Pryd bynnag y byddwn yn cynnal sioeau/cynyrchiadau mawr, rydym yn gofalu bod gennym ein hebryngwyr 'trwyddedig' ein hunain wrth law ond rydym yn sicrhau bod grŵp o rieni'n bresennol hefyd. Byddwn bob amser yn sicrhau bod hebryngwyr trwyddedig yn cynnig arweiniad a chymorth i'r rhieni yn ôl yr angen.

- Dylai pob hebryngwr gael ei drwyddedu'n annibynnol a'i wirio gan yr awdurdod lleol. Gallai llacio'r gofynion ar gyfer y sector amatur olygu bod unigolion diegwyddor sydd am ddod i gysylltiad â phlant at eu dibenion nhw'u hunain yn targedu'r sector hwn.

- Fel rheol, bydd y sector amatur yn cynnwys rhieni neu ffrindiau rhieni fel rheol, sy'n ddylanwadol iawn.

- Mae gan hebryngwyr sydd wedi'u hyfforddi'n llawn y wybodaeth a'r profiad i gyflawni'r rôl yn broffesiynol: asesiadau risg, seibiannau digonol ar gyfer y plentyn, gweithio o fewn yr oriau sydd wedi'u neilltuo i'r plentyn.

### C20 Ydych chi'n credu y dylid gostwng yr uchafswm o blant y gall hebryngwr ofalu amdanynt ar y tro?

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (55%) yn cytuno y dylid lleihau nifer y plant y gallai hebryngwr ofalu amdanynt ar y tro, ac roedd nifer y plant a gynigiwyd yn amrywio yn ôl eu hoedran. Roedd yr ymatebion yn ffafrio'r gymhareb ganlynol gyfer plant o wahanol oedrannau:

| | |
|---|---|
| 15 i 16 | 1 i bob 12 |
| 11 i 14 | 1 i bob 10 |
| 5 i 10 | 1 i bob 8 |
| 0 i 4 | 1 i bob 2 |

**Sylwadau**

- Rwy'n credu y byddai cymhareb o 1:8 yn dderbyniol. Fodd bynnag, mae hyn i gyd yn dibynnu ar oedran, rhyw ac anghenion ychwanegol.

- Mae 12:1 yn rhy fawr o lawer. Nid oes posibl i un hebryngwr fod yn gyfrifol am blant ar y llwyfan, yn yr ystafell wisgo, a phlant sydd am ddefnyddio'r toiled i gyd ar yr un pryd.

- Mae'n anodd cadw llygad ar griw o blant wedi'u cyffroi!

- Yn ymarferol, mae hebryngwr yn gyfrifol am lai na 12 o blant ar y tro fel rheol. Rydym yn cefnogi'r cynnig cyfredol i leihau'r gymhareb i uchafswm o 10 plentyn am bob un hebryngwr.

- Mae lleihau'r nifer hwn i 10 yn ymddangos yn rhesymol, ond bydd amgylchiadau pob cynhyrchiad yn amrywio a byddai'r cynhyrchydd yn ystyried yn ofalus nifer priodol y plant y gallai un hebryngwr ofalu amdanynt ym mhob achos, a diogelwch a lles y plant fyddai'n cael blaenoriaeth wrth ystyried hyn.

## Addysg

### C 21 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ganiatáu mwy o hyblygrwydd yn yr oriau hyfforddi?

Nid oedd yr un ymatebydd yn cytuno â'r cynnig hwn, ac o'r ymatebwyr a fynegodd ddewis, roedd 71% yn cytuno y byddai caniatáu mwy o hyblygrwydd yn yr oriau

hyfforddi yn beth da. Ni fynegodd gweddill yr ymatebwyr ddewis a dim ond un oedd ddim yn siŵr.

**Sylwadau**

- Mae hyn yn dibynnu ar hyd contract y plentyn. Rhaid i rieni gael dylanwad sylweddol ar les addysg y plentyn, gan ofalu nad ydynt yn methu cyfleoedd dysgu gwerthfawr.

- Mae caniatáu hyblygrwydd i'w weld yn rhesymol cyn belled â bod yr egwyddor o hawl yn parhau.

- Mae'r oriau hyfforddi eisoes mor gymhleth fel bod lefel anghymesur o uchel o anghysondeb yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dehongli'r gyfraith mewn perthynas â hyn. Mae hyn yn creu problemau enfawr i gynyrchiadau sy'n cynnwys plant o sawl awdurdod lleol gwahanol.

- Dylai'r ysgol arferol/sy'n croesawu osod/darparu gwaith pan fydd y plentyn yn absennol o'r ysgol o'r diwrnod cyntaf.

- Byddem yn annog hyblygrwydd pan fo'n berthnasol, ac yn awgrymu bod unrhyw oriau a fynychir yn yr ysgol yn ystod y cyfnod ffilmio yn cael eu cyfrif fel oriau cymhwyso.

- Yn aml, dim ond am gyfnodau byr o hyd at ddwy awr mewn diwrnod y bydd cwmnïau cynhyrchu am i blant gymryd rhan, a byddant yn gwneud trefniadau i fynd â'r plentyn i'r ysgol am weddill y diwrnod.

### C 22 Ydych chi'n credu y dylai hyfforddiant barhau i fod yn ofynnol (fel nawr) ar ail ddiwrnod absenoldeb o'r ysgol?

Nid oedd cytundeb clir rhwng ymatebwyr mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, gyda'r un nifer bron yn cytuno (26%) ac yn anghytuno (29%). Mae'r sylwadau isod a gafwyd gan rai ymatebwyr yn dangos faint mae darpariaeth addysg a thiwtora o'r ail ddiwrnod o absenoldeb o'r ysgol ar hyn o bryd yn amrywio.

**Sylwadau**

- Bydd y tiwtor yn gallu dilyn cwricwlwm yr ysgol, os bydd y plentyn i ffwrdd o'r ysgol am gryn amser. Rhieni, athrawon a'r cwmni cynhyrchu fydd i benderfynu hyn.

- Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth am diwtora yn anghyson, gyda chyngor gwahanol ar 'ble y dylid tiwtora plentyn ar unrhyw ddiwrnod y dylai fod yn yr ysgol' ac 'ymrwymiadau hir', sy'n cael eu disgrifio fel rhai sy'n para mwy nag wythnos.

- Os yw plentyn yn gweithio am gyfnod hwy nag wythnos, dylid trafod ei anghenion addysgol gyda'i athrawon o flaen llaw.

- Credwn mai mater i'r cwmni cynhyrchu, yr ysgol dan sylw a'r rhiant/gwarcheidwad ei drafod yw tiwtora. Er bod rhaid dweud y gallai'r gofyniad i ddarparu addysg ar ail ddiwrnod yr absenoldeb o'r ysgol fod, yn ei hanfod, yn fodd o gadw'r plentyn o'r ysgol am fwy nag sydd angen, ond hwyrach mai cwblhau'r perfformiad ddylai cael blaenoriaeth fel y gall y plentyn ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted â phosibl i ddysgu yn ei amgylchedd ysgol ac ystafell ddosbarth naturiol.

- Y brif ystyriaeth yw na ddylai addysg y plentyn ddioddef oherwydd ei fod wedi penderfynu cymryd rhan mewn gweithgaredd perfformio. Mae'n hanfodol bod rhieni, penaethiaid a hebryngwyr yn cydweithio i sicrhau bod anghenion addysgol pob plentyn yn cael eu hasesu a'u diwallu.

- Nid yw'r gofyniad i drefnu tiwtor am ymrwymiad byr, er enghraifft, 3 diwrnod, yn ddull dysgu effeithiol oherwydd mae'n cymryd amser i'r tiwtor bennu a deall gofynion addysgol y plentyn er mwyn gallu ei addysgu'n effeithiol.

## Gweithio dramor

### C23 Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol yn hytrach nag ynadon fod yn gyfrifol am benderfyniadau trwyddedu ar gyfer plant i berfformio dramor?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (68%) yn cytuno y dylai awdurdod lleol yn hytrach nag ynadon fod yn gyfrifol am benderfyniadau trwyddedu pan fydd plentyn yn perfformio dramor. Y prif reswm oedd y byddai awdurdod lleol yn gwybod mwy am y plant sy'n perfformio, y cwmni cynhyrchu ac y byddai ganddynt ragor o wybodaeth gefndir am y plentyn.

**Sylwadau**

- Bydd yr awdurdod lleol yn gyfarwydd iawn â'r plentyn sy'n perfformio a bydd ganddo wybodaeth berthnasol. Bydd angen i gwmnïau cynhyrchu wybod pryd fydd y plentyn ar gael i ffilmio dramor. Bydd yr awdurdod lleol yn gyfarwydd â'r cwmni cynhyrchu ac yn gallu rhoi'r drwydded.

- Mae gan yr awdurdod lleol berthynas gyda'r plentyn ac mae'n gwybod am unrhyw ymyrraeth ond nid yw'n rhan o'r broses gyfredol. Byddai cynnwys hyn yn ffrwd waith awdurdodau lleol yn synnwyr cyffredin a byddem yn cefnogi hyn gant y cant.

- Credwn fod y system gyfredol o wneud cais i ynad am drwydded i blentyn berfformio dramor yn gymhleth ac yn fiwrocrataidd, ac nid oes llawer o lysoedd ynadon, â phob parch, yn arbenigo yn y maes hwn.

- Mae’n briodol i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am bob agwedd ar drwyddedu plant sy’n perfformio, yn cynnwys penderfyniadau ar ganiatáu i blant berfformio dramor. Nid yw’r system gyfredol, lle nad oes rhaid i ynadon gyfeirio at farn yr awdurdod lleol neu ei hysbysu bod trwydded wedi’i dyfarnu, yn ymddangos yn synhwyrol.

- Profiad o orfod gwneud cais i lys ynadon arbenigol yn Llundain yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser i gwmnïau yng Nghymru sydd wedi meithrin perthynas ag awdurdodau lleol Cymru sydd â mwy o ddealltwriaeth o’r cwmnïau cynhyrchu a’r cynyrchiadau sydd ganddynt mewn golwg.

**C24 Ydych chi’n credu y dylai unrhyw asiantaethau eraill fod yn rhan o benderfyniadau i drwyddedu plant i berfformio dramor?**

Dim ond ychydig yn fwy o ymatebwyr a oedd yn cytuno (35%) o gymharu â’r rhai nad oeddent yn cytuno (26%) y dylai asiantaethau eraill fod yn rhan o benderfyniadau i drwyddedu plant i berfformio dramor. Gwasanaethau cymdeithasol oedd y brif asiantaeth a ddylai fod yn rhan o’r broses, ac enwodd rhai ymatebwyr y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

**Sylwadau**

- Os yw’r plentyn yn y system ofal, rhaid cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol yn y broses gan mai nhw yw’r rhiant cydweithredol. Yn dibynnu ar beth mae’r plentyn yn ei berfformio: digwyddiadau chwaraeon, cwmnïau cynhyrchu, hebryngwyr. Rhaid trefnu cyfarfodydd gyda’r awdurdod lleol i drafod gwybodaeth berthnasol, llunio amserlen o berfformiadau a gwaith papur ar gyfer y plentyn i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu bob amser yn ystod ei amser dramor.

- Os yw’r hebryngwr a ddefnyddir yn un sydd wedi’i gymeradwyo gan yr awdurdod addysg lleol, dylai’r sefyllfa fod yn ddiogel. Fodd bynnag, pan fo’r hebryngwr yn un o hebryngwyr y cwmni cynhyrchu, gallai fod achlysuron lle gallai gael ei roi mewn sefyllfa letchwith ac mae’n bosibl na fydd anghenion y plentyn yn dod gyntaf bob amser.

- Dylai fod yn ofynnol i anfon copi o’r cais am drwydded i’r Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Nid ydym o’r farn bod angen cynnwys asiantaethau eraill heblaw’r awdurdod lleol.

- Er ein bod o’r farn ei bod hi’n synhwyrol i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am drwyddedu plant i berfformio dramor, gan gymryd yr awenau oddi ar ynadon, mae mesurau diogelu eraill y byddai’n ddefnyddiol eu cadw, fel cadw’r gofyniad i hysbysu swyddfeydd is-genhadon.

### C25 Nid yw perfformiadau tramor yn destun archwiliad, gan na fyddai hynny'n ymarferol. A oes unrhyw fesurau eraill a fyddai'n gwella diogelwch ar gyfer plant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau dramor, gan gynnwys modelu proffesiynol?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn pwysleisio y gallai mewnbwn awdurdod lleol fod yn gyfyngedig tra bod y plentyn dramor. Roedd awgrymiadau ymatebwyr yn amrywio o gael cyfarfod rhwng yr awdurdod lleol a'r cwmni cynhyrchu yr wythnos cynt i drafod pob agwedd ar les y plentyn dramor. Law yn llaw â hyn, byddai cysylltu â swyddfeydd is-genhadon a gofyn am eu cyfranogiad nhw yn gwella diogelwch cyn ac yn ystod y cyfnod pan fyddai'r plentyn yn perfformio dramor, yn ôl ymatebwyr. Dyma rai o'r prif bwyntiau a godwyd:

**Sylwadau**

- Plant yn cael eu hebrwng yn briodol dramor.
- Cael gwybodaeth leol am y gyrchfan.
- Mae angen cynnal asesiadau risg Iechyd a Diogelwch a ddylai gynnwys ystyried risgiau penodol teithio e.e. cadarnhau bod y plentyn wedi cael y brechiadau perthnasol ac ati.
- Dylid cynnal cyfarfod (wyneb yn wyneb neu dros y ffôn) rhwng swyddog trwyddedu'r awdurdod lleol ac uwch gynrychiolydd o'r cwmni cynhyrchu sy'n teithio i drafod y materion perthnasol cyn teithio.
- Dylai bod modd cysylltu'n hawdd ag uwch gynrychiolydd o'r cwmni cynhyrchu sy'n teithio tra'i fod dramor.
- Dylid trafod unrhyw bryderon gyda'r swyddog trwyddedu o'r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl.

## Ceisiadau am drwyddedau, cadw cofnodion a phwerau Awdurdodau Lleol

### C26 Ydych chi'n cytuno y dylid gostwng y cyfnod rhybudd am ofyniad i gael trwydded o 21 diwrnod i ddeg?

Cytunodd dros hanner yr ymatebwyr (52%) y dylid gostwng y cyfnod rhybudd o 21 diwrnod i ddeg. Serch hynny, er mwyn i hyn fod yn ymarferol, roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno yn teimlo y byddai'n rhaid gallu dibynnu ar y ffaith fod yr awdurdod eisoes yn gwybod am y cwmni cynhyrchu/plentyn ac ati. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno (16%) yn teimlo nad oedd 10 diwrnod yn ddigon o amser i gyflawni'r gwiriadau gofynnol nac ymdrin ag unrhyw faterion annisgwyl a allai godi.

**Sylwadau**

- Bydd gan yr awdurdodau lleol y data perthnasol am berfformiadau a gyflawnwyd gan y plentyn. Os darperir yr holl wybodaeth o fewn y 10 diwrnod o ddyfarnu'r drwydded, ni ddylai hyn fod yn broblem i'r awdurdod.

- Rydym ni'n teimlo bod y 15 diwrnod gwaith cyfredol eisoes yn cael ei esgeuluso a byddwn yn derbyn ceisiadau am drwyddedau ddiwrnodau cyn y bydd eu hangen. Trwy leihau'r cyfnod i ddeng niwrnod, gallai hyn beri rhagor o broblemau pe bawn i'n absennol o'r gwaith. Os yw aros i ffwrdd dros nos yn rhan o'r cais, gallai hyn beri rhagor o broblemau, gan y byddai'n rhaid i ni gysylltu ag awdurdodau eraill i gynnal y gwiriadau ar ein rhan.

- Pe bai unrhyw broblemau'n codi, ni fyddai 10 diwrnod yn caniatáu llawer o amser i'w datrys.

- Byddai hyn yn gymorth mawr i gwmnïau. Efallai y byddai cwmnïau yn gallu rhoi rhybudd i'r awdurdod ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod rhywun ar gael i brosesu'r trwyddedau.

- Byddai lleihau'r cyfnod trwyddedu i 10 diwrnod yn gymorth mawr i'r cwmni cynhyrchu. Byddai'n ein galluogi i ddefnyddio ystod ehangach o blant, a chynhyrchu eitemau mwy cyfredol/amserol i'w darlledu. Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael trefn garlam ar gyfer amgylchiadau eithriadol, ac os yw cyfraniad y plentyn yn fychan.

- Gall fod yn anodd iawn casglu manylion 21 diwrnod ymlaen llaw. Os yw cynhyrchwyr a threfnwyr yn hysbys i'r awdurdod trwyddedu, dylid bod modd cwblhau'r broses.

- Byddem yn croesawu lleihau'r cyfnod o 21 i 10 diwrnod. Gellid hefyd drefnu gwasanaeth carlam (a thalu ffi ychwanegol) i ymdrin ag amgylchiadau annisgwyl e.e. os oes angen ychwanegu aelod arall i'r cast oherwydd bod un o'r plant yn sâl ac ati

**C27 A oes ffyrdd eraill y gellid cyflawni'r broses yn gynt?**

Roedd nifer o ymatebwyr yn gryf o blaid cael system electronig/ar-lein a fyddai'n cyflymu'r broses o wneud cais am drwydded yn sylweddol o gymharu â'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd. Trwy wneud hynny, a thrwy hepgor yr angen am dystysgrif feddygol / gan Feddyg Teulu a chaniatáu i'r rheini ddatgan bod eu plentyn yn iach i berfformio oni bai bod tystysgrif feddygol yn ofyniad gan yr awdurdod lleol.

**C28 Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i ddiddymu rôl a phwerau'r awdurdod lleol i:**

Roedd ymatebwyr i dair rhan y cwestiwn hwn wedi'u rhannu'n gyfartal fwy neu lai rhwng

y rhai a oedd yn cytuno a'r rhai a oedd yn anghytuno. Dim ond adran c (enillion plentyn) oedd yn dangos mwyafrif clir gyda bron hanner ohonynt (48%) yn cytuno y dylid dileu pwerau'r awdurdod lleol yn y cyswllt hwn. Isod, ceir sylwadau a wnaed gan ymatebwyr o dan wahanol rannau'r cwestiwn:

**a) Cymeradwyo lle?**

- Y sefydliadau mwyaf cyfarwydd sydd â'r holl gyfleusterau ar gyfer perfformwyr: Fe hoffem ni i rôl yr awdurdod barhau gan nad yw'r lleoliadau llai o bosibl yn addas

- Anaml iawn y bydd lleoliadau go iawn yn cael eu harchwilio o flaen llaw, gan fod lleoliadau gan mwyaf yn hysbys, ac wedi'u cymeradwyo yn y gorffennol. Pan fo archwiliad ymlaen llaw i'w gynnal, fel rheol bydd hyn yn digwydd yn sgil gwahoddiad oddi wrth y cwmni cynhyrchu, ac fel rheol yn y sector amatur. Yn aml, bydd y pryder yn seiliedig ar ddiffyg cyfleusterau newid ar wahân i blant sy'n sicrhau eu preifatrwydd a'u hurddas.

- Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod cyfleusterau plant a safonau'n disgyn, ac na fydd gan Awdurdodau Lleol bŵer i fynnu bod y grwpiau hyn yn gwella'r hyn a gynigir ac a ddarperir i blant.

- Mae archwiliadau dirybudd yn agwedd bwysig ar rôl diogelu'r Awdurdod Lleol.

- Yn creu risg sylweddol, a bydd cynhyrchwyr yn dueddol o ddiystyru diffygion

- Yn rhannol, dylai'r awdurdod lleol barhau â'r hawl i wrthod cais os cynhelir y perfformiad mewn lleoliad anaddas.

**b) Cymeradwyo llety?**

- Gall hyn fod yn rhan o gymeradwyaeth y drwydded.

- Anaml y bydd hyn yn broblem ac mae llai na 2% o'r llety a ddarperir gan gynyrchiadau'n cael eu harchwilio. Ar y sail honno, gellir dweud ei bod yn briodol dileu hyn o'r ddeddfwriaeth. Serch hynny, ceir sefyllfaoedd yn aml lle bydd plant yn aros mewn fflat neu randy, yn ogystal â mewn gwesty. Yn gyffredinol, ni welwn fod angen archwilio gwestai pan fo gwesty gydag 'enw brand' yn cael ei ddefnyddio. Pan fo plentyn mewn fflat neu mewn tŷ, dylid rhoi gwybod i Awdurdod Lleol pwy sy'n rhannu'r eiddo gyda'r plentyn. Anaml y darperir y wybodaeth hon, ac mae'n wybodaeth y mae'n rhaid i'r awdurdod gymell y cwmni cynhyrchu i'w datgelu. Mae'r cynnig hwn yn ein hatal rhag gofyn y cwestiwn hyd yn oed. Yn sgil dyheadau'r llywodraeth am agwedd resymol a synnwyr cyffredin, ein hawgrym ni yw na ddylai plant rannu'r un adeilad a'r criw, gan y dylai'r criw gael lle ac amser priodol i ymlacio hefyd.

- Cyn belled ag y bo'r llety mewn gwesty cydnabyddedig ac y darperir enw/cyfeiriad penodol fel rhan o'r cais am drwydded fel y gellir ei ddilysu.

- A fyddai modd i hebryngwr cymeradwy'r Awdurdod Lleol archwilio a chymeradwyo ar ran yr Awdurdod Lleol?

**c) Pennu sut dylid cynilo enillion plant?**

- Rhieni/gwarcheidwaid y plant gaiff benderfynu hyn.

- Er na ddylai'r wladwriaeth ymyrryd yn ddiangen mewn materion teuluol, mae'n llawer rhy hawdd i rieni lyncu enillion plant mewn modd sy'n rhesymol iddyn nhw, ond na fyddai o bosibl mor rhesymol i ni

- Credaf y dylai plant hŷn/pobl ifanc o bosibl bennu sut y dylid cynilo eu henillion, ond mae hefyd angen ystyried tystiolaeth anecdotaidd sy'n ymwneud â rhieni yn gwario'r arian hwnnw gan ddiystyru'r plentyn.

- Nid mater i'r awdurdod lleol yw hwn, serch hynny gall fod yn faes y dylai'r llywodraeth genedlaethol ei ystyried ymhellach, gan nad yw enghreifftiau o rieni yn camddefnyddio enillion plant sy'n berfformwyr yn rhywbeth anghyffredin.

**C29 Ydych chi'n cytuno y dylem symleiddio'r gofynion i gadw cofnodion?**

Roedd bron hanner yr ymatebwyr (48%) yn cytuno y gellid symleiddio'r gofyniad i gadw cofnodion er mwyn lleihau gwaith gweinyddol, ond roedd llawer yn awyddus i barhau i gadw cofnodion er mwyn diogelu plant. Roedd llai na chwarter (23%) yn teimlo na ddylid symleiddio cofnodion.

**Sylwadau**

- Mae angen cofnodion i ddiogelu plant. Mae angen i'r Hebryngwr gofnodi pob agwedd ar y drwydded, os oes unrhyw bryderon yn codi, gellir eu cofnodi a'u hadrodd yn ôl wrth yr awdurdod.

- Mae'n allweddol bod cwmnïau cynhyrchu'n cadw cofnodion er mwyn i'r diwydiant adloniant yn gyffredinol gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Yn aml, o ganlyniad i archwilio'r cofnodion hyn, gwelir nad yw'r rhain yn cael eu cadw'n ddigonol nac mewn 'amser real'.

- Er ein bod yn cytuno y dylid lleihau gwaith gweinyddol gymaint ag y bo modd, rydym yn teimlo'n gryf y dylai hebryngwyr gadw cofnod o oriau a seibiannau'r plant.

- Dylid cadw pob cofnod am o leiaf chwe mis ar ôl cynnal y perfformiad/digwyddiad.

- Nac ydw. Mae cofnodion amserau dechrau, gorffen a seibiant yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gofynion y drwydded yn cael eu bodloni.

- Dylid cadw cofnodion os ceir unrhyw bryderon ynglŷn â diogelu plant gan nodi'r hyn a ddywedwyd a pha gamau a gymerwyd

**C30 Ydych chi'n credu y dylem ddisodli'r pŵer mynediad gydag amod yn y drwydded neu gymeradwyaeth? (cofiwch ystyried yr effaith debygol os na fydd y pŵer ar gael, a'r effaith ar allu awdurdodau lleol i orfodi'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer cadw plant yn ddiogel)**

Roedd ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal (26%) o ran cytuno ac anghytuno ynglŷn â disodli pŵer mynediad gydag amod yn y drwydded neu gymeradwyaeth

**Sylwadau**

- Mae hyn yn sicrhau bod yr amodau'n ddiogel i'r plentyn ym mhob un o feysydd y drwydded: yn enwedig rheoliadau cyflogaeth.

- Wrth ddileu'r pŵer sy'n rhan o Adran 28 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, a'i ychwanegu fel amod o'r drwydded, mae hyn yn cyfyngu ar effeithiolrwydd archwiliadau Awdurdodau Lleol. Trwy ei gynnwys fel amod o'r drwydded, mae hyn yn golygu na fydd gan awdurdodau lleol bŵer i archwilio perfformiadau a gynhelir o dan y rheol pedwar diwrnod, ac na fyddant yn gallu archwilio perfformiadau yn y sector amatur oni bydd darpariaeth ar wahân ar gyfer hynny o dan yr APRC.

- Rwy'n credu y byddai'n beth da pe bai aelod o'r awdurdod lleol yn dod i'n hymarferion, gan y gallent weld â'u llygaid eu hunain sut mae'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu trin o fewn y grŵp.

- Mae'r hawl i gynnal archwiliad dirybudd yn hanfodol.

- Nac ydw. Gallai hyn olygu na fyddai'r awdurdod lleol yn gallu cael mynediad i'r adeilad ble mae plentyn yn gweithio fel perfformiwr heb drwydded, a gallai arwain at ragor o fiwrocratiaeth yn yr achosion hynny ble mae pryderon ynghylch diogelwch plentyn sy'n berfformiwr.

**C31 Os oes gennych unrhyw brofiad o ddefnyddio'r pwerau hyn, oeddech chi'n credu eu bod yn briodol neu angenrheidiol?**

Nid oedd gan fwyafrif yr ymatebwyr unrhyw brofiad o'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio neu nid oedden nhw wedi ateb y cwestiwn. Roedd hyn yn wir am 84% o'r ymatebion. Nododd un ymatebydd a oedd wedi cael profiad o'r math hwn fel a ganlyn:

Roedden nhw'n briodol ac ystyriwyd eu bod yn gymorth i alluogi swyddogion yr awdurdod lleol i weld prosesau cynhyrchu teledu drostynt eu hunain. Yn gyffredinol, mae'n ddefnyddiol meithrin perthynas waith dda rhwng y cynhyrchwyr a'r awdurdodau lleol.

**C32 Beth yw'r prif resymau dros fethiant i gydymffurfio â'r gofynion trwyddedu yn eich barn chi?**

Darparwyd nifer o enghreifftiau gan ymatebwyr o'r rhesymau am ddiffyg cydymffurfio â gofynion trwyddedu. Roedd diffyg cysondeb yn nhrefniadau awdurdodau lleol a'r amrywiaeth yn hyd yr amser sy'n ofynnol ar gyfer cael trwydded yn thema gyffredin yn yr ymatebion. Mynegwyd pryderon fod yna rai achosion o osgoi cael trwydded, a bod diffyg cydymffurfio yn ffordd o gadw o'r golwg er mwyn osgoi gwneud cais am drwyddedau oherwydd yr amser, yr ymdrech, y costau a'r drefniadaeth sy'n ofynnol.

Roedd diffygion o ran deall y rheoliadau a diffyg profiad hefyd yn ffactor ychwanegol ym marn rhai ymatebwyr, problem y gellid ei datrys pe bai canllawiau, gweithdrefnau a deddfwriaeth ddiwygiedig yn cael eu darparu gan y Llywodraeth.

**C33 Oes gennych chi unrhyw brofiad neu a oes gennych chi dystiolaeth a allai'n helpu i asesu'r achos dros newid y cosbau?**

Yr un fath â'r ymatebion i gwestiwn 31, roedd y rhai nad oedd ganddynt brofiad neu nad oeddent wedi ymateb i'r cwestiwn hwn yn cyfateb i 87% o'r ymatebion. Dyma sylwadau un ymatebydd a oedd wedi cael profiad o'r math hwn:

Os ceir achosion dibwys o dorri'r amodau, byddai'n briodol i'r awdurdod lleol ymdrin â'r mater drwy ddarparu canllawiau ac annog arferion gorau. Byddai'r niwed i enw da'r cwmni nad oedd yn cydymffurfio yn gosb ddigonol ynddo'i hun.